COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD NOS LUN, 21AIN RHAGFYR 2009 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd A. Khan (Maer)
Y Cynghorwyr W. Bagnall, B. Cossey Y.H., Mrs L. Danson M.B.E., Mrs L. Edwards, Mrs M. Edwards, P. Edwards, Mrs J. Griffiths, Mrs S. Harley, G. Jones Y.H., Mrs L. Lyon, Mrs H. Meredith, J. Oddy, Mrs V. Perry, P. Richards

SWYDDOG YN BRESENNOL: Y Clerc.

335 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB:

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr J. Davies, Mrs J. Geddes, C. Hughes, G. Hughes, C. Perry, Mrs A. Robinson B.E.M., Mrs S. Roy a Mrs V. Smith Y.H.

336 COFNODION:

Cyflwynodd y Clerc cofnodion y Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 16eg Tachwedd 2009 a'r 14eg Rhagfyr 2009 i'w cymeradwyo fel adroddiad cywir.

Penderfynwyd cymeradwyo'r Cofnodion a gyflwynwyd fel adroddiad cywir.

337 COFNODION Y PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO:

Cyflwynodd y Clerc cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8fed Rhagfyr 2009 i'w cymeradwyo.

Penderfynwyd cymeradwyo'r Cofnodion a gyflwynwyd.

338 COFNODION Y PWYLLGOR POLISI A CHYLLID:

Cyflwynodd y Clerc cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg Rhagfyr 2009 i'w cymeradwyo.

Penderfynwyd cymeradwyo'r Cofnodion a gyflwynwyd yn amodol ar:-
Cofnod 328
Cynigiwyd gan y Cynghorydd G. Jones ac fe benderfynwyd bod Is-bwyllgor Rhyddfraint y Dref yn ystyried gosod Bwrdd Anrhydeddau yn Siambr y Cyngor i gofnodi enwau'r rhai a dderbyniodd Rhyddfraint y Dref.

339 AWDURDOD HEDDLU GOGLEDD CYMRU - GWEITHREDIAD FFOCWS:

Cyflwynodd y Clerc y dogfennau canlynol i'w ystyried:-
a) Neges e-bost gan Swyddog Polisi Heddlu Gogledd Cymru
b) Llythyr oddi wrth Gadeirydd Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru
c) Neges e-bost gan Mr Andrew Woods

Roedd yr aelodau o'r farn bod Gweithrediad Ffocws yn fater plismona a heb yr holl ystadegau priodol, nid yw'n bosibl i wneud dyfarniad realistig.

Penderfynwyd bod y Clerc i ysgrifennu at Awdurdod yr Heddlu i adael iddynt wybod am sylwadau'r aelodau.

340 PWYLLGOR SAFONAU CONWY:

Cyflwynodd y Clerc copi o Daflen newyddion y Pwyllgor er gwybodaeth.

Penderfynwyd derbyn y Daflen Newyddion a'i nodi.

341 OMBWDSMON CYMRU - CANLLAWIAU DRAFFT AR Y COD YMDDYGIAD:

Cyflwynodd y Clerc llythyr a Chanllawiau Drafft ar y Cod Ymddygiad oddi wrth Ombwdsmon Cymru, i'w ystyried.

Atgoffwyd yr aelodau gan y Clerc y dylent sicrhau nad ydynt yn rhoi'r argraff, wrth ymdrin â'r Wasg ac / neu'r Cyfryngau, bod eu sylwadau /barnau unigol eu hunain yn rhai'r Cyngor.

Penderfynwyd derbyn y llythyr a'r Canllawiau Drafft a'u nodi.

342 CYFARFOD CYHOEDDUS:

Hysbyswyd yr aelodau gan y Clerc bod Mr David Jones A.S. wed trefnu cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol y Pier.

Fe gynhelir y cyfarfod yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, dydd Gwener 22ain Ionawr 2010 am 6pm.

Nid yw ffurf y cyfarfod yn hysbys ar hyn o bryd.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a'i nodi..

343 AMSERLEN CYFARFODYDD 2010-2011:

Cyflwynodd y Clerc copiau o Amserlen y Cyfarfodydd am y Flwyddyn Drefol 2010-2011.

Atgoffwyd yr aelodau gan y Clerc bod cyfarfod y Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio oedd i'w gynnal ar 5ed Ionawr 2010 i gael ei gynnal dydd Llun 11eg Ionawr 2010 am 6.30pm.

Penderfynwyd derbyn Amserlen y Cyfarfodydd a'i nodi..

344 ADRODDIAD RHIF 2 Y PWYLLGOR DEDDFWRIAETHOL:

Testun yr adroddiad oedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llywodraeth Leol) arfaethedig.

Hysbysodd y Clerc yr aelodau bod sylwadau'r Cyngor wedi cael eu nodi gan y Pwyllgor (Cyfeirnod LGCC5 a Chyfeirnod Para 63.)

Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad a'i nodi.

Nid oedd yr eitemau canlynol yn ymddangos ar yr agenda, ond gyda chytundeb y Maer, cawsant eu hystyried fel mater o frys er mwyn osgoi unrhyw oedi.

345 TRIBIWNLYS ANGHENION ADDYSG ARBENNIG CYMRU:

Cyflwynwyd hysbysiad am safle gwag i Aelod Lleyg eistedd ar y Tribiwnlys, er gwybodaeth.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a'i nodi

346 SAFLE GWAG ACHLYSUROL – WARD GLYN:

Hysbyswyd yr aelodau gan y Clerc bod y Cynghorydd Maratos wedi ymddiswyddo o'r Cyngor a gofynnodd i'r Cyngor datgan yn ffurfiol bod yna Safle Gwag Achlysurol yn bodoli yn Ward Glyn.

Penderfynwyd datgan bod yna Safle Gwag Achlysurol yn bodoli yn Ward Glyn.

Fe benderfynwyd ymhellach bod y Clerc i adael i Adran Etholiadol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wybod am y safle gwag.

347 CYHOEDDIAD Y MAER:

Dymunodd y Maer Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r holl aelodau ac fe'u gwahoddwyd i ymuno ag ef am luniaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 p.m.